

cta

community transport
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



Cludiant Cymunedol Dolen Teifi

Prosiect Cymunedau Cydweithredol

Yn aml gall bod yn aelod o grŵp cymunedol, cymdeithas neu glwb lleol roi ymdeimlad o berthyn i bobl. Trwy ddod ynghyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu fynychu diwrnodau allan, mae bod yn aelod o grŵp cymunedol yn rhoi cyfle i bobl sydd â diddordebau tebyg ddod at ei gilydd, treulio amser gyda'i gilydd a mwynhau cwmni ei gilydd.

I lawer o bobl, serch hynny, mae bod yn rhan o grŵp cymunedol lleol yn golygu llawer mwy na chyfarfod â phobl y maen nhw'n eu hadnabod unwaith yr wythnos. I lawer, yn enwedig y rhai sy'n unig, wedi'u hynysu yng nghefn gwlad ac sydd heb fodd i deithio, gall bod yn aelod o grŵp cymunedol fod yn achubiaeth, gan roi cyfle i gwrdd a sgwrsio gyda ffrindiau, cael cwmni a chymryd rhan mewn pethau maen nhw'n mwynhau eu gwneud gyda phobl eraill.

Wedi sylweddoli bod cludiant cymunedol fforddiadwy a hygyrch yn brin yng Ngorllewin Cymru, ac ar sail profiadau blaenorol o ddatblygu a darparu cludiant i grwpiau, **daeth Cludiant Cymunedol Dolen Teifi, ynghyd gyda thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru, Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro (PACTO) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) yn 2018 i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu cais am gyllid i gynorthwyo grwpiau i deithio gyda'i gilydd a chyrraedd cyfleoedd cymdeithasol mewn ffordd gynhwysol a hygyrch.**

Trwy alluogi mwy o grwpiau cymunedol i deithio gyda'i gilydd ar gyfer cyfleoedd cymdeithasol, teithiau a chyfarfodydd, nod y prosiect oedd gwneud gwahaniaeth sylweddol er gwell i ansawdd bywyd aelodau unigol o'r gymuned trwy leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a hyrwyddo lles.

Yn 2019 cafodd y prosiect 'Cymunedau Cydweithredol' gymeradwyaeth ar gyfer cyllid gyda buddsoddiad o £199,000 wedi'i sicrhau trwy Gynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiect wedi galluogi Dolen Teifi i sefydlu gwasanaethau cludiant mewn cymunedau lle mae mawr angen cludiant cymunedol megis Llandysul a Llanybydder. Dros dair blynedd, bydd y prosiect yn darparu 10,000 o deithiau unigolion. Bydd 500 o oriau gwirfoddol gan yrwyr yn cael eu rhoi i sicrhau y gall grwpiau cymunedol deithio gyda'i gilydd i'w hoff leoedd, a rhoddir 100 awr arall o waith datblygu i gynorthwyo

gweithredwyr cludiant cymunedol eraill yng Ngorllewin Cymru i ddatblygu eu gwasanaethau cludiant grŵp eu hunain - gan adeiladu rhwydwaith cryfach o wasanaethau cludiant cymunedol ledled y rhanbarth.

Mae'r prosiect eisoes wedi cael effaith enfawr yn y gymuned. Mae sefydliadau fel y Sgowtiaid, grwpiau chwaraeon, grwpiau iechyd meddwl, grwpiau cyn-aelodau'r lluoedd arfog, grwpiau ffermwyr ifanc, yn ogystal â chymdeithasau tai, darparwyr tai gwarchod a changhennau *Age Cymru*, i gyd wedi elwa o allu cael cludiant fforddiadwy a hygyrch. Mae natur amrywiol y grwpiau hyn yn golygu bod y prosiect yn cefnogi croestoriad eang o'r gymuned - o blant ifanc a'u rhieni i bobl hŷn a phobl anabl.

Un arall o effeithiau cadarnhaol y prosiect fu dileu cannoedd o deithiau car unigol a chael effaith amgylcheddol gadarnhaol trwy helpu pobl i deithio gyda'i gilydd. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd y prosiect yn cynorthwyo mwy a mwy o grwpiau cymunedol ledled Gogledd Cymru i gael cludiant bws mini hygyrch, gan eu helpu i gyrraedd y bobl a'r lleoedd sy'n annwyl iddynt. Bydd y prosiect hefyd yn delio â 'mannau problemus' yng Ngorllewin Cymru lle rydyn ni'n gwybod bod galw sylweddol am gludiant cymunedol, a byddwn yn helpu ein haelodau i gyrraedd y cymunedau lle mae'r angen mwyaf.

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.

